OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 500

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

## RHAN 2

Diwygiadau

**Diwygiadau i reoliad 12E**

**5.**—(1) Mae rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (2)(e) mewnosoder—

"(f) yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 14 o Atodlen 5;

(g) yn berson—

(i) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig,

(ii) sy'n gymwys i ymarfer proffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un neu ragor o'r cyrff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**) neu adran 67 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**), a

(iii) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddiben cyflogaeth fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr gofal proffesiynol."

(3) Ym mharagraff (3F)(b), yn yr addasiad i reoliad 10(4), ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

"(i) pan fo P yn berson sy'n dod o fewn paragraff (2)(f), at ddiben ymgymryd â'r gwaith hwnnw."

(**1**) 2002 p. 17.
(**2**) 2016 dccc 2.